23-06 (08)

**Eitem: 11**

**Teitl:** Strwythur Sefydliadol

| | |
|---|---|
| **Gweithredu / Action required** | Adroddiad er gwybodaeth yn unig |
| **Amseru / Timing** | Brys |
| **Argymhelliad / Recommendation** | Gofynnir i'r Bwrdd nodi'r diweddariad ar recriwtio ac ystyried y cynnig i ychwanegu rôl ychwanegol at y strwythur. |
| **Risg / Risk** | Nid oes gan y sefydliad ddigon o adnoddau, mae swyddi gwag yn rhoi pwysau ychwanegol ar ein pobl a gallent arwain at fylchau yn y gwasanaethau a ddarperir.<br><br>Mae'r risg hon wedi'i chynnwys yn y gofrestr risg gorfforaethol ddrafft a gyflwynir i'r Bwrdd. |
| **Cyllid / Finance** | Gofynnir i'r Bwrdd ystyried y cynnig i ychwanegu rôl ychwanegol at y strwythur. Mae'r rôl yn mynd drwy'r broses gwerthuso swyddi ac mae Llais yn rhagweld y bydd yn cael ei graddio ar fand 8C (£70,417-£81,138).<br><br>Gall y Bwrdd fod yn sicr bod y rôl hon yn fforddiadwy ac y bydd y gost yn cael ei thalu o fewn y gyllideb gyffredinol. |
| **Amcan Cynllun Corfforaethol/Corporate Plan Objective / Amcan Rhaglen/Programme Objective** | Strwythur sefydliadol a darpariaeth weithredol. |
| **Cydraddoldeb / Equality** | Amh |

| | |
|---|---|
| **Cyfathrebu / Communications** | Ticiwch un o'r blychau canlynol os bydd y gweithgaredd hwn yn cael effaith ar:<br>**Mewnol:** ein pobl ☒<br>**Allanol:** ein cwsmeriaid/partneriaid/rhanddeiliaid ☒<br>**Allanol:** enw da ein sefydliad ☒ |
| **Cymeradwyaeth / Approval/Clearance** | Mae'r adroddiad hwn wedi'i gymeradwyo gan y Prif Weithredwr. |
| **Trafodaethau/Penderfyniadau Blaenorol / Previous discussions/decisions** | Mae'r Bwrdd yn derbyn diweddariadau rheolaidd ar sefyllfa recriwtio Llais. |
| **Awdur/Cyflwyno / Author/presenting** | Chris Davies |
| **Dyddiad / Date** | 13.10.23 |

## Cefndir / Background

Ers i Llais ddod yn weithredol ar 1 Ebrill 2023, mae nifer o rolau wedi cael eu recriwtio iddynt.

Rydym hefyd wedi profi rhywfaint o oedi wrth recriwtio am nifer o resymau, a'r prif reswm yw'r broses gwerthuso swyddi a'r amser sydd ei angen ar gyfer cyfieithu hysbysebion swyddi.

Er bod gallu ein gweithlu wedi cynyddu o ganlyniad i staff rhan amser yn cynyddu eu horiau gwaith, mae pwysau adnoddau o hyd ar draws y sefydliad cyfan. Mae'r pwysau hyn wedi amlygu bylchau yn strwythur staff y sefydliad. Mae hyn yn risg i'r sefydliad gan y bydd y bylchau hyn yn anochel yn effeithio ar ddarpariaeth gwasanaeth (sylwer: bod hwn wedi'i nodi fel risg strategol ac wedi'i gynnwys yn y gofrestr risg corfforaethol).

Mae Tîm Arwain yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod adnoddau ac adnabod bylchau a phwysau. O ganlyniad i'r trafodaethau hyn mae'r angen am adnoddau ychwanegol wedi'i nodi - mae'r manylion i'w gweld isod.

Mae'r adroddiad hwn hefyd yn ceisio rhoi trosolwg o ble mae pob swydd wag o fewn y broses recriwtio.

## Manylion / Detail

Roedd y manylion yn yr adroddiad hwn yn gywir ar Trac.jobs ar 9 Hydref 2023.

Mae lefel yr adnoddau sydd eu hangen ar gyfer recriwtio sefydliadol yn parhau i fod yn uchel yn ôl y disgwyl:

**Cam gwirio cyn-cyflogaeth** – mae chwe swydd lle mae cynigion cyflogaeth amodol wedi'u gwneud:-

- Cynorthwyydd Cymorth Gweinyddol (Caerdydd a Bro Morgannwg)
- Swyddog Cymorth Gweinyddol (Caerdydd a Bro Morgannwg).
- Rheolwr Llywodraethu (Tîm Cenedlaethol)
- Swyddog Cymorth Gweinyddol (Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot)
- Cynorthwyydd Personol (Tîm Cenedlaethol)
- Swyddog Cymorth Eiriolaeth (Powys)
- Swyddog Cymorth Gweinyddol (Cwm Taf Morgannwg).

Mae'r rolau hyn ar hyn o bryd yn aros am y gwiriadau cyn cyflogaeth cyn gallu cytuno ar ddyddiadau dechrau.

**Cadarnhawyd dyddiad cychwyn** - Mae pedair rôl lle mae'r prosesau cyn cyflogaeth wedi'u cwblhau'n llwyddiannus a dyddiadau dechrau wedi'u cadarnhau:

- Swyddog Cymorth Gweinyddol (Gorllewin Cymru) dyddiad cychwyn 23 Hydref 2023
- Swyddog Cymorth Eiriolaeth (Caerdydd a Bro Morgannwg) dyddiad cychwyn 23 Hydref 2023
- Dirprwy Gyfarwyddwr Rhanbarthol (Cwm Taf Morgannwg) dyddiad cychwyn 30 Hydref 2023
- Rheolwr Cyllid (Swyddfa Genedlaethol) dyddiad cychwyn 6 Tachwedd 2023

**Swyddi sy'n hysbyseb byw** – mae chwe swydd wag ar hyn o bryd:

- Dwy rôl Eiriolwr (Gogledd Cymru) – cyfweliadau wedi'u cynllunio ar gyfer Hydref 2023
- Dau Swyddog Cymorth Eiriolaeth (dros gyfnod mamolaeth yng Ngwent a rôl sylweddol) – cyfweliadau wedi'u cynllunio ar gyfer Hydref 2023
- Cynorthwyydd Gweinyddol (Caerdydd a Bro Morgannwg) – cyfweliadau wedi'u cynllunio ar gyfer Hydref 2023
- Swyddog Gweinyddol ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd (Gogledd Cymru) – cyfweliadau wedi'u cynllunio ar gyfer Tachwedd 2023

**Swyddi gwag sydd ar ddod** – mae gennym bedair swydd sydd wedi'u gwerthuso ac mae'r disgrifiadau swydd yn cael eu cyfieithu. Rhain yw:

- Pennaeth Mewnwelediad ac Ymgysylltu
- Rheolwr Cyfathrebu
- Swyddog e-Gyfathrebu
- Swyddog Cyfathrebu

**Swyddi i'w hailhysbysebu** – mae angen hysbysebu'r rôl isod gan nad oeddem yn gallu penodi ymgeisydd addas:

- Cyfieithydd Cymraeg (Tîm Cenedlaethol)

**DS yn y panel gwerthuso** - mae'r rolau canlynol yn aros i gael eu gwerthuso:

- Pennaeth Cynnwys Digidol a Chyfathrebu
- Cyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu

Mae Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn cynnal y broses gwerthuso swyddi ar ran Llais.

Mae adolygiad mewnol yn cael ei gynnal o brosesau recriwtio Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru. Oherwydd hyn prin yw'r paneli gwerthuso swyddi sydd ar gael ar gyfer yr ychydig fisoedd nesaf. Rhagwelwn y bydd hyn yn achosi oedi sylweddol wrth recriwtio ar gyfer rolau nad ydynt wedi'u gwerthuso eto.

**Rôl newydd arfaethedig i'w Hystyried gan y Bwrdd**

Yn unol â pharagraff 7.2 o restr dirprwyo mewnol y Bwrdd, cyfrifoldeb y Bwrdd yw 'Cymeradwyo unrhyw gynnydd yn niferoedd staff parhaol CALI…'.

Yn dilyn y penodiad interim i rôl Cyfarwyddwr Strategol Gweithrediadau a Gwasanaethau Corfforaethol, gydag asesiad y cytunwyd arno o ran cynaliadwyedd portffolio mor eang o wasanaethau ar gyfer deiliad swydd unigol, mae adolygiad y PSG a Chyfarwyddwyr Strategol wedi pennu bod rôl uwch ychwanegol benodol yn cefnogi'r elfen weithredol adnodd-ddwys, er mwyn creu digon o gapasiti i'r Cyfarwyddwr Strategol allu neilltuo digon o amser ar gyfer elfennau mwy strategol a llywodraethu corfforaethol i ddiogelu'r sefydliad. Bydd atebolrwydd cyffredinol am faterion gweithredol sefydliadol yn parhau i fod yn atebolrwydd i'r Cyfarwyddwr Strategol Gweithrediadau a Gwasanaethau Corfforaethol.

Bydd y Cyfarwyddwr Strategol Gweithrediadau a Gwasanaethau Corfforaethol yn parhau i oruchwylio'r maes hwn.

Mae'r siart trefniadol i'w weld ym mhapur 23-06 (08)a.

**Camau i'w cymryd:**
Gofynnir i'r Bwrdd ystyried cymeradwyo'r rôl ychwanegol, y mae disgrifiad swydd drafft wedi'i ddatblygu ar ei chyfer ar gyfer asesu'r bandio ac sydd o fewn darpariaethau'r gyllideb gyfredol hyd at Fand 8C (£70,417-£81,138) yr Agenda ar gyfer Newid.